




MALIC 2014

Crynodeb Sir Gaerfyrddin

MALIC yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn rhannau bychain o Gymru. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny o'r wlad sydd â'r nifer mwyaf o sawl gwahanol fath o amddifadedd.



Cynnwys

	Tudalen
1. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014	1
2. Beth yw Ardadalredd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI)?	1
3. Beth yw Mynegai?	1-2
4. Dangosyddion MALIC	2-3
5. Lluio MALIC	4
6. Crynodeb Sir Gaerfyrddin	5-18
Atodiad	19-22

MALIC 2014 – Crynodeb Sir Gaerfyrddin

1. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

MALIC yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn rhannau bychain o Gymru. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny o'r wlad sydd â'r nifer mwyaf o sawl gwahanol fath o amddifadedd. Amddifadedd yw'r diffyg mynediad i gyfleoedd ac adnoddau y byddem yn eu disgwyl yn ein cymdeithas. Gall hyn olygu nwyddau materol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

2. Beth yw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI)?

Mae Cymru wedi cael ei rhannu i 1,909 o ardaloedd bach a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is neu ACEHI. Tra bo'r ardaloedd yn wahanol iawn o ran eu hardal ddaearyddol, mae ganddynt boblogaeth gyfartal o 1,600 o bobl. Gwnaed hyn er mwyn gallu llunio cymhariaeth deg rhwng ardaloedd mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae 112 ACEHI yn Sir Gaerfyrddin.

3. Beth yw Mynegai?

Grŵp o fesuriadau gwahanol wedi'u cyfuno'n un rhif yw mynegai. Y nod yw dangos newidiadau mewn amrywiadau cymhleth fel cynnyrch diwydiannol, prisiau neu amddifadedd yn yr achos yma. Yna, mae mynegai yn fodd i gymharu rhwng gwerthoedd gwahanol - sef, yn achos MALIC, y gymhariaeth rhwng ardaloedd bach. Ar hyn o bryd mae MALIC yn cynnwys wyth maes (neu fath) gwahanol o amddifadedd.

Y Math o Amddifadedd	Pwysiad MALIC
Incwm	23.5%
Cyflogaeth	23.5%
Iechyd	14%
Addysg	14%
Mynediad at Wasanaethau	10%
Diogelwch Cymunedol	5%
Amgylchedd Ffisegol	5%
Tai	5%

Mae pob maes yn cynnwys amryw o ddangosyddion amddifadedd. Mae MALIC yn rhoi gradd rhwng 1 (y mwyaf difreintiedig) a 1,909 (y lleiaf difreintiedig) i'r holl ardaloedd bach yng Nghymru. Nid yw'n mesur lefel yr amddifadedd mewn ardal.

4. Dangosyddion MALIC

Mae'r dangosyddion a ddefnyddir i roi canlyniadau MALIC wedi eu rhestru yn eu meysydd isod.

Maes	Dangosyddion
Incwm:	<p>Canran y boblogaeth mewn amddifadedd. Wedi'i ddiffinio fel y rheiny sydd naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn oedolyn, neu'n blentyn dibynnol oedolyn, sy'n derbyn budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm; • yn oedolyn, neu'n blentyn dibynnol oedolyn, sy'n derbyn Credydau Treth Gwaith a Phlant ac sydd ag incwm sy'n llai na 60 y cant o'r incwm canolrif ar gyfer Cymru; neu • yn Geiswyr Lloches
Cyflogaeth:	<p>Canran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth.</p>
Iechyd:	<ul style="list-style-type: none"> • Mynychder Canser (wedi'i safoni yn anuniongyrchol yn ôl oedran a rhyw) • Salwch Cyfyngus Hirdymor (wedi'i safoni yn anuniongyrchol yn ôl oedran a rhyw) • Pwysau Geni Isel (genedigaethau unigol byw llai na 2.5 kg) • Cyfradd Marwolaeth o Bob Achos (wedi'i safoni yn anuniongyrchol yn ôl oedran a rhyw)
Addysg:	<ul style="list-style-type: none"> • Sgôr Pwyntiau wedi'i chapio Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 • Sgôr Pwyntiau Cyfartalog wedi'i chapio Cyfnod Allweddol 4 • Lefel 2 Cynhwysol Cyfnod Allweddol 4 • Absenoliaeth Mynych • Cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch • Nifer yr Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau
Mynediad at Wasanaethau:	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Siopau Bwyd

Maes	Dangosyddion
	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i feddygfeydd meddygon teulu • Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Ysgolion Cynradd • Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Ysgolion Uwchradd • Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Swyddfeydd Post • Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Lyfrgelloedd Cyhoeddus • Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Fferyllfeydd • Amseroedd teithio preifat i Orsafoedd Petrol (teithio preifat yn unig) • Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Ganolfanau Hamdden
Diogelwch Cymunedol:	<ul style="list-style-type: none"> • Byrgeriaeth a gofnodir gan yr heddlu • Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu • Lladrad a gofnodir gan yr heddlu • Troseddu treisgar a gofnodir gan yr heddlu • Achosion o dân • Ymddygiad gwrthgymdeithasol
Amgylchedd Ffisegol:	<ul style="list-style-type: none"> • Perygl Llifogydd • Allyriadau Aer • Crynodiadau Aer • Agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol
Tai:	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfran y bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely) • Cyfran y bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog

5. Lluoio MALIC

MYNEGAI

AMDDIFAEDED

LLUOSOG CYMRU

(MALIC) 2014



1909

ARDAL GYNNYRCH EHANGACH
HAEN IS YNG NGHYMRU

gyda

PHOBLOGAETH GYFARTALOG O

**1600
PERSON**

Y DULL SWYDDOGOL O FESUR AMDDIFAEDED CYMHAROL MEWN ARDALOEDD BACH YNG NGHYMRU

MWYAF PWYSIG

INCWM



CYFLOGAETH



IECHYD



ADDYSG



MYNEDIAD I
WASANAETHAU



DIOGELWCH
CYMUNEDOL



AMGYLCHEDD
FFISEGOL



TAI



GRADDFA MALIC CYFFREDINOL

1 ARDAL MWYAF DIFREINTIEDIG

GRADDFEYDD MALIC

ARDAL LLEIAF DIFREINTIEDIG

1909

GALLWCH

GELLIR DEFNYDDIO MALIC I:

Cymharu graddfa amddifadedd cyffredinol ardaloedd bach

Cymharu 8 maes (math) o amddifadedd

Cymharu cyfran ardaloedd bach awdurdodau lleol sydd yn amddifad iawn

PEIDIWCH

NI ELLIR DEFNYDDIO MALIC I:

Nodi faint yn fwy amddifad mae un ardal nag ardal arall

Cymharu graddfeydd dros amser (mesur cymharol ydyw)

Cymharu gyda gwledydd eraill y DU

Mesur ardaloedd cefnog (nid yw diffyg amddifadedd yr un peth â bod yn gefnog)

6. Crynodeb Sir Gaerfyrddin

Mae gan Sir Gaerfyrddin 112 ACEHI (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is). Mae canlyniadau MALIC 2014 yn dangos fod gan Sir Gaerfyrddin 25 ACEHI o fewn y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r mwyafrif o'r ardaloedd yma (60%) yn ardal Llanelli (15 ACEHI) gydag 20% yn ardal Rhydaman (5 ACEHI), 12% yn ardal Cwm Gwendraeth (3 ACEHI) a 7% yn ardal Caerfyrddin (2 ACEHI).

Canran o ACEHI yn ôl eu safle amddifadedd – Mynegai Cyffredinol (2014)	
% ACEHI ymhlith y 10% o rai mwyaf difreintiedig yn y Mynegai Cyffredinol	5%
% ACEHI ymhlith y 20% o rai mwyaf difreintiedig yn y Mynegai Cyffredinol	6%
% ACEHI ymhlith yr 30% o rai mwyaf difreintiedig yn y Mynegai Cyffredinol	12%
% ACEHI ymhlith y 30-50% o rai mwyaf difreintiedig yn y Mynegai Cyffredinol	30%
% ACEHI ymhlith yr 50% o rai lleiaf difreintiedig yn y Mynegai Cyffredinol	47%

Yn Sir Gaerfyrddin mae 5 ardal ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru:

- Tyisha 2
- Bigyn 4
- Llwynhendy 3
- Glanymôr 4
- Tyisha 3

a 7 ardal ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru:

- Glanymôr 1
- Gogledd Tref Caerfyrddin 2
- Rhydaman 1
- Llwynhendy 2
- Trimsaran 1
- Glanymôr 3
- Lliedi 3

a 13 ardal ymhlith y 30% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru:

- Pen-bre 2
- Cydweli 1
- Glanymôr 3
- De Tref Caerfyrddin 1
- Felin-foel
- Porth Tywyn 2
- Glanaman 1
- Tyisha 1
- Rhydaman 2
- Glanaman 2
- Elli 2
- Pontaman 1
- Llangyndeyrn 1.

Yr ardal fwyaf difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin yw Tyisha 2, a'r ardal leiaf difreintiedig yn y Sir yw'r Hendy 1.

O ddadansoddi'r data gwelir mewn rhai ardaloedd fod wardiau etholiadol cyfan ymhlith y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef Rhydaman, Felin-foel, Glanymôr, Glanaman a Thyisha.

Yn y maes Mynediad at Wasanaethau, Cynwyl Gaeo yn Sir Gaerfyrddin yw'r ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda Llanegwad 2 a Thre-lech yn agos sef y 4^{edd} a'r 5^{ed} ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y drefn honno. (Gweler Graff 1 a 2).


7. ACEHI ymhlith y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru - Mynegai Cyffredinol

MALIC 2011		MALIC 2014	
Tyisha 2	44	Tyisha 2	55
Bigyn 4	75	Bigyn 4	124
Glanymôr 3	131	Llwynhendy 3	125
Glanymôr 1	156	Glanymôr 4	154
Tyisha 3	161	Tyisha 3	187
Llwynhendy 3	171	Glanymôr 1	194
Glanymôr 2	192	Gogledd Tref Caerfyrddin 2	266
Hengoed 2	256	Rhydaman 1	291
Llwynhendy 2	259	Llwynhendy 2	294
Lliedi 3	273	Trimsaran 1	320
Gogledd Tref Caerfyrddin 2	342	Glanymôr 2	349
Rhydaman 1	373	Lliedi 3	358
Trimsaran 1	383	Pen-bre 2	400
Porth Tywyn 2	394	Cydweli 1	403
Felin-foel	419	Glanymôr 3	423
Pen-bre 2	422	De Tref Caerfyrddin 1	464
Bynea 2	473	Felin-foel	475
Llangyndeyrn 1	504	Glanaman 1	478
Tyisha 1	510	Porth Tywyn 2	479
Cydweli 1	531	Tyisha 1	505
Elli 2	532	Rhydaman 2	534
Saron 1	541	Glanaman 2	539
Llannon 1	554	Elli 2	543
Glanaman 1	556	Pontaman 1	554
De Tref Caerfyrddin 1	566	Llangyndeyrn 1	560




8. Maes Mynediad at Wasanaethau trwy ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus

Graff 1:



9. Maes Mynediad at Wasanaethau trwy ddefnyddio Trafnidiaeth Breifat

Graff 2:




10. Map ACEHI yn Sir Gaerfyrddin sydd ymhlith y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru




MYNEGAI CYFFREDINOL MALIC 2014 - SAFLE YNG NGHYMRU

© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100023377
 © Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023377




11. ACEHI Sir Gaerfyrddin sydd ymhlith y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru



12. ACEHI yn Sir Gaerfyrddin sydd ymhlith y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru - Meusydd

Graff 4:



13.ACEHI yn Sir Gaerfyrddin sydd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru

ACEHI SIR GAERFYRDDIN (10% mwyaf difreintiedig)	Tyisha 2		Llwynhendy 3		Bigyn 4		Glanymôr 4		Tyisha 3	
MEYSYDD ↓	Safle Cymru	Safle Sir Gâr	Safle Cymru	Safle Sir Gâr	Safle Cymru	Safle Sir Gâr	Safle Cymru	Safle Sir Gâr	Safle Cymru	Safle Sir Gâr
<i>Mynegai Cyffredinol MALIC 2014</i>	55	1	125	3	124	2	154	4	187	5
<i>Incwm</i>	114	2	202	6	99	1	238	7	193	4
<i>Cyflogaeth</i>	28	1	104	2	152	4	157	5	137	3
<i>Iechyd</i>	64	1	122	3	166	5	395	15	390	14
<i>Addysg</i>	115	2	103	1	150	4	141	3	306	10
<i>Mynediad at Wasanaethau</i>	1503	99	912	77	669	65	471	50	1304	94
<i>Diogelwch Cymunedol</i>	17	1	379	11	301	10	257	9	40	4
<i>Amgylchedd Ffisegol</i>	300	17	311	19	421	23	50	2	228	12
<i>Tai</i>	238	6	496	18	598	30	303	10	497	19

14. Y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn ôl maes a'u safle yn Sir Gaerfyrddin

Incwm

Safle	ACEHI
1	Bigyn 4
2	Tyisha 2
3	Gogledd Tref Caerfyrddin 2
4	Tyisha 3
5	Llwynhendy 2
6	Llwynhendy 3
7	Glanymôr 4
8	Glanymôr 1
9	Trimsaran 1
10	Lliedi 3

Cyflogaeth

Safle	ACEHI
1	Tyisha 2
2	Llwynhendy 3
3	Tyisha 3
4	Bigyn 4
5	Glanymôr 4
6	Glanymôr 1
7	Rhydaman 1
8	Cydweli 1
9	Llwynhendy 2
10	Pen-bre 2

Iechyd

Safle	ACEHI
1	Tyisha 2
2	Lliedi 3
3	Llwynhendy 3
4	Rhydaman 1
5	Bigyn 4
6	Cydweli 1
7	Trimsaran 1
8	Glanymôr 1
9	Cwarter Bach 1
10	Pontaman 1

Addysg

Safle	ACEHI
1	Llwynhendy 3
2	Tyisha 2
3	Glanymôr 4
4	Bigyn 4
5	Gogledd Tref Caerfyrddin 2
6	Glanymôr 1
7	Glanymôr 3
8	Trimsaran 1
9	Llwynhendy 2
10	Tyisha 3

Mynediad at Wasanaethau

Safle	ACEHI
1	Cynwyl Gaeo
2	Llanegwad 2
3	Tre-lech
4	Llansteffan
5	Cynwyl Elfed 1
6	Llanboidy
7	Llangadog
8	Trefgordd Talacharn 1
9	Cil-y-cwm
10	Llanismael 2

Diogelwch Cymunedol

Safle	ACEHI
1	Tyisha 2
2	De Tref Caerfyrddin 1
3	Elli 2
4	Tyisha 3
5	Rhydaman 2
6	Lliedi 1
7	Tyisha 1
8	Gogledd Tref Caerfyrddin 2
9	Glanymôr 4
10	Bigyn 4

Amgylchedd Ffisegol

Safle	ACEHI
1	Glanymôr 1
2	Glanymôr 4
3	Elli 2
4	Bynea 1
5	Glanymôr 3
6	De Tref Caerfyrddin 2
7	Llanybydder 2
8	Glanymôr 2
9	Tyisha 1
10	Gorllewin Tref Caerfyrddin 1

Tai

Safle	ACEHI
1	Llanegwad 2
2	De Tref Caerfyrddin 1
3	Llanfihangel-ar-arth 1
4	Llwynhendy 2
5	Cil-y-cwm
6	Tyisha 2
7	Tre-lech
8	Cynwyl Elfed 1
9	Gogledd Tref Caerfyrddin 2
10	Glanymôr 4

15. Ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin sydd ymhlith y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru fesul maes

10% Mwyaf Difreintiedig	20% Mwyaf Difreintiedig	30% Mwyaf Difreintiedig

INCWM	
ACEHI	Safle yng Nghymru
Bigyn 4	99
Tyisha 2	114
Gogledd Tref Caerfyrddin 2	156
Tyisha 3	193
Llwynhendy 2	195
Llwynhendy 3	202
Glanymôr 4	238
Glanymôr 1	286
Trimsaran 1	359
Lliedi 3	380
Pen-bre 2	407
Glanymôr 2	431
Felinfoel	437
Rhydaman 1	456
Dafen 2	479
Cydweli 1	501
Porth Tywyn 1	508
Glanaman 2	513
Cwarter Bach 1	524
Glanymôr 3	532
Llaneler 1	542
Porth Tywyn 2	549
Rhydaman 2	554
Pontaman 1	556

CYFLOGAETH	
ACEHI	Safle yng Nghymru
Tyisha 2	28
Llwynhendy 3	104
Tyisha 3	137
Bigyn 4	152
Glanymôr 4	157
Glanymôr 1	197
Rhydaman 1	215
Cydweli 1	278
Llwynhendy 2	285
Pen-bre 2	292
Trimsaran 1	300
Glanymôr 2	301
Porth Tywyn 2	335
Glanaman 2	341
Rhydaman 2	365
Lliedi 3	389
Gogledd Tref Caerfyrddin 2	400
Glanaman 1	419
De Tref Caerfyrddin 1	427
Porth Tywyn 1	439
Pontaman 1	442
Felin-foel	463
Llandybïe 2	504
Lliedi 1	513
Y Garnant	519
Tyisha 1	544
Gogledd Tref Caerfyrddin 1	561
Elli 2	567
Llangyndeyrn 1	568
Trimsaran 2	569

IECHYD		ADDYSG	
ACEHI	Safle yng Nghymru	ACEHI	Safle yng Nghymru
Tyisha 2	64	Llwynhendy 3	103
Lliedi 3	121	Tyisha 2	115
Llwynhendy 3	122	Glanymôr 4	141
Rhydaman 1	150	Bigyn 4	150
Bigyn 4	166	Gogledd Tref Caerfyrddin 2	183
Cydweli 1	244	Glanymôr 1	209
Trimsaran 1	296	Glanymôr 3	220
Glanymôr 1	315	Trimsaran 1	258
Cwarter Bach 1	316	Llwynhendy 2	266
Pontaman 1	323	Tyisha 3	306
Bigyn 1	329	Glanymôr 2	355
Llwynhendy 2	338	Tyisha 1	383
Glanaman 1	345	Gogledd Tref Caerfyrddin 1	400
Tyisha 3	390	Pen-bre 2	413
Glanymôr 4	395	Felin-foel	421
Glanymôr 3	410	Porth Tywyn 2	431
Saron 1	416	Llannon 1	432
Gogledd Tref Caerfyrddin 2	421	Cydweli 1	445
Llannon 1	423	Pontyberem 2	449
Llangyndeyrn 1	429	Llangyndeyrn 1	480
Elli 2	430	De Tref Caerfyrddin 1	505
Felin-foel	437	Bynea 2	539
Glanymôr 2	445	Dafen 2	566
Rhydaman 2	461		
Pen-y-groes 2	468		
Tyisha 1	475		
Trimsaran 2	502		
Y Garnant	515		
Y Glyn	518		
Pen-bre 2	535		
Y Bynea 2	538		
Elli 1	550		
Glanaman 2	561		

MYNEDIAD AT WASANAETHAU				
ACEHI	Safle yng Nghymru		ACEHI	Safle yng Nghymru
Cynwyl Gaeo	1		Llangynnwr 2	218
Llanegwad 2	4		Trimsaran 2	225
Tre-lech	5		Llangyndeyrn 2	226
Llansteffan	19		Hendy-gwyn	238
Cynwyl Elfed 1	20		Trefgordd Talacharn 2	257
Llanboidy	25		Glanaman 1	261
Llangadog	30		Y Glyn	271
Trefgordd Talacharn 1	40		Saron 1	274
Cil-y-cwm	47		Llangynnwr 1	285
Llanismael 2	50		Llanybydder 2	303
Llanger 2	66		Y Betws	305
Manordeilo a Salem	68		Llangyndeyrn 1	308
Llanymddyfri 1	81		Cydweli 2	323
Llanegwad 1	88		Sanclêr 2	333
Llanger 1	97		Llandybie 2	344
Cynwyl Elfed 2	105		Trimsaran 1	350
Llanfihangel Aberbythych	121		Saron 2	370
Cenarth	128		Rhydaman 1	385
Llanfihangel-ar-arth 2	137		Llangennech 2	393
Llanddarog	141		Hengoed 2	411
Llanybydder 1	143		Y Bynea 1	424
Llanfihangel-ar-arth 1	147		Glanymôr 3	457
Abergwili	171		Pen-bre 2	459
Llandeilo 1	182		Glanymôr 4	471
Llannon 3	184		Llandybie 1	496
Llanismael 1	189		Pen-y-groes 2	514
			Dyffryn Y Swistir 2	517
			Cwarter Bach 2	518
			De Tref Caerfyrddin 2	542
			Llannon 2	544
			Dyffryn Y Swistir 1	553
			Pontyberem 1	569

DIOGELWCH CYMUNEDOL		AMGYLCHEDD FFISEGOL	
ACEHI	Safle yng Nghymru	ACEHI	Safle yng Nghymru
Tyisha 2	17	Glanymôr 1	44
De Tref Caerfyrddin 1	18	Glanymôr 4	50
Elli 2	21	Elli 2	72
Tyisha 3	40	Y Bynea 1	75
Rhydaman 2	53	Glanymôr 3	79
Lliedi 1	120	De Tref Caerfyrddin 2	177
Tyisha 1	156	Llanybydder 2	188
Gogledd Tref Caerfyrddin 2	227	Glanymôr 2	201
Glanymôr 4	257	Tyisha 1	202
Bigyn 4	301	Gorllewin Tref Caerfyrddin 1	211
Llwynhendy 3	379	Rhydaman 1	220
Porth Tywyn 2	412	Tyisha 3	228
Glanymôr 1	452	Hengoed 1	244
Bigyn 1	462	Glanaman 2	258
Bigyn 2	520	Elli 1	283
Gogledd Tref Caerfyrddin 3	546	Bigyn 1	284
		Tyisha 2	300
		Dafen 1	303
		Llwynhendy 3	311
		Llandybie 1	361
		Llangeler 1	387
		Llangennech 3	395
		Bigyn 4	421
		Lliedi 3	428
		Pontaman 1	430
		Hengoed 2	446
		Gorllewin Tref Caerfyrddin 2	465
		Llangadog	472
		Gorllewin Tref Caerfyrddin 3	499
		Saron 2	507
		Llwynhendy 1	510
		Llandybie 2	520
		Llanymddyfri 2	554

TAI	
ACEHI	Safle yng Nghymru
Llanegwad 2	68
De Tref Caerfyrddin 1	164
Llanfihangel-ar-arth 1	196
Llwynhendy 2	201
Cil-y-cwm	203
Tyisha 2	238
Tre-lech	240
Cynwyl Elfed 1	280
Gogledd Tref Caerfyrddin 2	292
Glanymôr 4	303
Lliedi 1	332
Llanboidy	351
Glanymôr 1	377
Pen-bre 2	435
Tyisha 1	447
Bigyn 2	473
Trimsaran 2	490
Llwynhendy 3	496
Tyisha 3	497
Llangeler 1	503
Llangadog	510
Llanymddyfri 1	516
Gorllewin Tref Caerfyrddin 3	519
Llangeler 2	534
Cwarter Bach 2	535
Trefgordd Talacharn 1	549
Cenarth	554

Atodiad:

1. Sut mae'r Mynegai'n cael ei lunio

Mae tair elfen sylfaenol yn perthyn i'r Mynegai:

- y Mynegai ei hun, sef set o safleoedd;
- safleoedd yr wyth math o amddifadedd, neu faes, a ddefnyddir i lunio'r Mynegai cyffredinol;
- y dangosyddion sylfaenol, sy'n uniongyrchol fesuradwy, ac sy'n cael eu cyfuno i greu safleoedd y meysydd. Nodir rhai, ond nid pob un, o'r dangosyddion fel cyfraddau. Mae'r unedau'n dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei fesur.

2. Amddifadedd

Amddifadedd yw'r diffyg cyfleoedd ac adnoddau y gallem eu disgwyl yn ein cymdeithas. Mae'r meysydd a restrir uchod yn ymwneud ag amddifadedd o safbwynt materol a chymdeithasol. Ystyr amddifadedd materol yw bod heb ddigon o adnoddau ffisegol - bwyd, dillad a chysgod - i gynnal safon byw benodol. Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at allu'r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

3. Amddifadedd Lluosog

Mae **amddifadedd lluosog** yn cyfeirio at fwy nag un math o amddifadedd. Mae ardal yn un ag amddifadedd lluosog os yw'n cynnwys nifer fawr o bobl sy'n profi'r math hwnnw o amddifadedd ar gyfer mwy nag un o'r meysydd hyn. Yn gyffredinol, po fwyaf o feysydd sydd â chrynodeiadau uchel o amddifadedd, po fwyaf yw lefelau amddifadedd cyffredinol yr ardal. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yr *un* bobl yn dioddef sawl math o amddifadedd yn yr ardal, er y byddem yn disgwyl cryn dipyn o orgyffwrdd.

4. Mesur ar Sail Ardal

Mesur ar sail ardal: Cyfrifir MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru. Ar ôl Cyfrifiad 2011, diffiniwyd 1,909 ACEHI yng Nghymru, ac mae ganddynt boblogaeth o 1,600 ar gyfartaledd. Mae'r MALIC yn seiliedig ar ddangosyddion sy'n ystyried nodweddion cyfun y bobl sy'n byw yn yr ardal, yn ogystal â nodweddion yr ardal ei hun mewn rhai achosion (er enghraifft y maes amgylchedd ffisegol).

5. Mesur Cymharol

Mesur cymharol: Mae'r Mynegai'n darparu ffordd o nodi'r ardaloedd yn eu trefn, o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig. Yn hytrach na mesur y lefelau amddifadedd mewn ardal, mae'n mesur a yw'r ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig na holl ardaloedd eraill Cymru. Gallwn nodi pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) difreintiedig na rhai eraill, ond nid faint yn fwy neu'n llai.

6. Defnyddio MALIC

Mae angen **cymryd gofal** wrth ddefnyddio MALIC 2014. Yn gyntaf, mesur cymharol a ddefnyddir yn unig i ddangos safle ACEHI o gymharu â'r holl ardaloedd cynnyrch o'r fath yng Nghymru yw MALIC. Nid yw'n nodi i ba raddau y mae ardal yn fwy difreintiedig neu'n llai difreintiedig na'r lleill. Yn ail, ni ddylid cymharu data 2011 â data 2014 - oherwydd:

→ datblygwyd ardaloedd cynnyrch daearyddol newydd yn dilyn cyhoeddi data 2011, gan newid cyfansoddiad ardaloedd daearyddol (e.e. Glanymôr 3 a 4) a chynyddu nifer yr ACEHI. O ganlyniad, ni ellir gwneud cymariaethau teg.

→ mae rhai o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i gyfrifo meysydd MALIC wedi cael eu newid, neu mae dangosyddion newydd wedi cael eu hychwanegu.

Gellir defnyddio MALIC ar gyfer:

- cymharu safleoedd amddifadedd cyffredinol pob ardal fach neu grŵp ohonynt (megis y rhai mewn Awdurdod Lleol), er mwyn gallu eu rhoi mewn trefn o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig;
- cymharu safleoedd ymysg meysydd amddifadedd unigol yr ardaloedd bach;
- cymharu dau neu fwy o awdurdodau lleol (neu grwpiau eraill o ardaloedd bach wedi'u cydgasglu) trwy edrych ar gyfran yr ardaloedd bach yn yr Awdurdod Lleol sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (dyweder) yng Nghymru gyfan;
- trwy ddefnyddio data sylfaenol y dangosyddion (ond nid y safleoedd MALIC eu hunain) mae modd dadansoddi newid dros gyfnod o amser (cyhoeddir data'r dangosyddion ar StatsCymru).

Enghreifftiau o ffyrdd pwysig y defnyddiwyd mynegeion blaenorol:

- datblygu a monitro rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- cyfrifo teuluoedd ysgolion ac fel ffactor cyd-destunol wrth gyfrifo gwerth ychwanegol ysgolion yn flynyddol;
- mesur anghydraddoldebau iechyd;
- asesiadau anghenion llywodraeth leol; a
- cynllunio adnoddau plismona cymunedol.

7. Cyfuno i Ardaloedd Daearyddol mwy o Faint

Nid oes modd cyfuno'r safleoedd i ardaloedd daearyddol mwy o faint drwy gymryd cyfartaledd graddfeydd ardaloedd bach. Y rheswm dros hyn yw'r ffordd y caiff y Mynegai ei lunio. Mae dwy ffordd o gymharu ardaloedd daearyddol mwy o faint:

(a) Cyfrifo cyfran yr ardaloedd bach mewn ardal ddaearyddol fwy sydd ymhlith y 10 neu 20 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig (dyweder) yng Nghymru.

Mae hyn wedi'i wneud ar gyfer awdurdodau lleol yn ein dadansoddiad a'r cynnyrch rhyngweithiol.

(b) Defnyddio'r dangosyddion unigol sylfaenol, y gellir eu cyfuno (fel y'u cyhoeddir ar StatsCymru).

8. Cymunedau yn Gyntaf

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru sef rhaglen Trechu Tlodi sy'n canolbwyntio ar y Gymuned yw Cymunedau Gyntaf. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar y cymunedau sydd ymhlith y 10% o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, fel y'u diffiniwyd gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2011. Mae Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin yn cwmpasu'r ardaloedd hyn ac ACEHI eraill sydd ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Isod mae rhestr o ACEHI Cymunedau Gyntaf (2014):

Rhydaman 1

Bigyn 4

Felin-foel

Glanymôr 1, 2, 3 a 4 (mae Glanymôr 3 yn 2011 bellach yn 3 a 4)

Hengoed 2 (yn 2014, mae Hengoed 2 bellach yn cynnwys Hengoed 2 a 3 fel yr oeddynt yn 2011)

Lliedi 3

Llwynhendy 2 a 3

Trimsaran

Tyisha 2 a 3.

Mae Clwstr Cymunedau yn Gyntaf yn cefnogi mentrau a phrosiectau sy'n helpu lleihau'r bwlch economaidd, iechyd, addysg a sgiliau rhwng y cymunedau mwyaf difreintiedig a'r cymunedau mwy cyfoethog, gan sicrhau bod yr unigolion, teuluoedd a grwpiau mwyaf agored i niwed yn y cymunedau yma yn cael cefnogaeth yn y meysydd yma.

Manylion Cyswllt Cymunedau yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin:

Cymunedauyngyntaf@sirgar.gov.uk

01554 784847

Ddiweddarir dogfen hon 20/6/2017 gan:

Lesley Rees
Swyddog Polisi Ymchwil a Gwybodaeth
Yr Is-adran Cwsmeriaid a Pholisi
01267 224462
llrees@sirgar.gov.uk

a

Richard Reynolds
Hyfforddai Graddedig: Gwybodaeth, Ymgynghori a Chyfranogiad
Yr Is-adran Cwsmeriaid a Pholisi
01267 224692
rcreynolds@sirgar.gov.uk